Drafft ar gyfer Ymgynghoriad

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for South West Wales



Chwefror 2025

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

## Atodiad 6:Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Bannau Brycheiniog

Cyngor Abertawe
Swansea Council

## Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae'r rhestr hir o gynlluniau posibl, isod, yn amodol ar ddatblygu ac asesu pellach.  Bydd hyn yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf gan ddilyn y dull a nodir yn Atodiad 4 y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

I gynorthwyo'r darllenydd, disgrifir y cynlluniau a restrir a darperir lleoliad ardal.

Mae rhestr y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol o gynlluniau'n destun asesiad pellach a pharhaus i'n galluogi i ddatblygu rhestr derfynol o gynlluniau â blaenoriaeth. Bydd yn ofynnol i bob cynllun â blaenoriaeth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus manwl maes o law a chadarnhau bod modd ei gyflawni a'i fod yn cynnig gwerth am arian, gan ddefnyddio proses asesu cynlluniau trafnidiaeth WelTag Llywodraeth Cymru.

## Teithio llesol / cerdded a beicio

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Uwchgynllun Rhydaman a Cross Hands | Pecyn o welliannau cerdded a beicio ar draws Rhydaman a Dyffryn Aman ehangach (y cyfeirir ato fel Cwmaman yn y Deg Tref), fel y nodwyd ar y mapiau rhwydwaith teithio llesol a thrwy amrywiol ymgynghoriadau â thrigolion a rhanddeiliaid allweddol. Bydd seilwaith arfaethedig yn cysylltu â ffordd feicio bresennol Dyffryn Aman ac yn anelu at nodi a llenwi unrhyw fylchau presennol. Byddai'r cynllun hwn yn elwa ar integreiddio â chyfnewidfa Trafnidiaeth Strategol Rhydaman a'r cynnig i ailagor Llinell Fwynau Dyffryn Aman. Mae Cross Hands wedi elwa ar fuddsoddiad a datblygiad sylweddol fel safle cyflogaeth strategol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r dref yn parhau i dyfu ac mae'n cwmpasu nifer fawr o aneddiadau preswyl llai o faint sy'n rhan ohoni. Bydd uwchgynllun Cross Hands yn ceisio mynd i'r afael â bylchau mewn cysylltedd rhwng rhannau o'r dref, gan sicrhau bod safleoedd cyflogaeth strategol yn hawdd eu cyrraedd ar droed ac ar gefn beic ac nad yw preswylwyr yn cael eu hynysu o wasanaethau drwy ddatblygiad sy'n dibynnu ar y car preifat. Bydd y cynllun hwn hefyd yn ystyried y cysylltiad coll rhwng Rhydaman a Llandeilo. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Uwchgynllun Porth Tywyn | Pecyn o fesurau i ategu a darparu cysylltedd â Llwybr Arfordir y Mileniwm sy'n cysylltu Porth Tywyn a Llanelli. Mae Porth Tywyn o arwyddocâd cynyddol yn rhanbarthol oherwydd y cyfleuster i drenau droi'n ôl sydd wedi'i gynllunio. Bydd y cynllun hwn yn sicrhau gwelliannau cerdded a beicio er mwyn i breswylwyr yn yr ardal gael at y gwasanaethau trenau cynyddol heb ddibynnu ar y car preifat. Bydd y cynllun hefyd yn darparu gwell cysylltedd â Phen-bre gerllaw, gan wella mynediad i barc Gwledig Pen-bre i breswylwyr, teithwyr trenau a thwristiaid. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Uwchgynllun Teithio Llesol Caerfyrddin | Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu 'ymagwedd newydd' at deithio llesol yng Nghaerfyrddin, gan ganolbwyntio ar broses o gynllunio rhwydweithiau a chynlluniau cysylltiedig sy'n ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid i ddarparu rhwydwaith cerdded a beicio addas i'r diben ar gyfer y dref. Nod y | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |

| Enw’r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| | cynllun yw darparu rhwydwaith cerdded a beicio cynhwysfawr ledled y dref, gan gysylltu â'r seilwaith presennol a chysylltu â chynllun teithio llesol strategol blaenllaw, Llwybr Dyffryn Tywi. | | |
| Cysylltiadau Teithio Llesol Trawsffiniol (Dwyrain y Sir) | Nodi cyfleoedd ar gyfer llwybrau cerdded a beicio trawsffiniol rhwng Brynaman a Chwm Tawe, Pontarddulais, Hendy a Phant-y-ffynnon, ar y cyd ag Abertawe a CNPT, a darparu rhwydwaith sy'n cysylltu'r ddwy gymuned, gan gwblhau Ffordd Feicio Dyffryn Aman. Gellid ehangu'r cynllun hwn i ystyried cyfleoedd eraill i greu llwybrau trawsffiniol, yn enwedig gyda Sir Benfro yn y Gorllewin (rhwng Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Talacharn, Pentywyn, Amroth ac Arberth) a Cheredigion yn y Gogledd rhwng Llanybydder, Llanbedr Pont Steffan, Cwmann, Castellnewydd Emlyn a Chenarth. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Uwchgynllun Cydweli | Pecyn o welliannau teithio llesol yng Nghydweli a chysylltu ag aneddiadau cyfagos gan gynnwys Glanyfferi a pharc gwyliau Bae Caerfyrddin. Bydd y cynllun hwn yn darparu gwelliannau cerdded a beicio lleol i hwyluso teithiau lleol yn ogystal â milltir gyntaf a milltir olaf teithiau amlfodd ar fws a thrên. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Uwchgynllun Llanymddyfri | Datblygwyd Uwchgynllun Teithio Llesol ar gyfer Llanymddyfri drwy ymgynghori â thrigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol. Nod hyn yw creu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio lleol sy'n caniatáu mwy o athreiddedd teithio llesol drwy'r dref, gan ddarparu mynediad at wasanaethau allweddol gan gynnwys yr ysgolion, y ganolfan hamdden, yr ysbyty a'r stryd fawr leol. Cynigir gweithredu’r cynllun yn y blynyddoedd i ddod drwy’r Gronfa Teithio Llesol. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Uwchgynllun Teithio Llesol Llanelli | Datblygu pecyn o fesurau dros nifer o flynyddoedd gyda'r nod o greu seilwaith cerdded a beicio newydd gyda chysylltiadau â chyrchfannau allweddol fel canolfannau addysg, safleoedd cyflogaeth/manwerthu a datblygiadau preswyl gan wella dwysedd y rhwyll ar draws y rhwydwaith teithio llesol cyfan.  Un o elfennau allweddol yr uwchgynllun hwn yw creu Llwybr Meingefn Llanelli a fydd yn cysylltu Hendy yr holl ffordd i Bentre Awel a Llwybr Arfordir y Mileniwm â seilwaith teithio llesol o ansawdd sydd oddi ar y ffordd yn bennaf. Mae cysylltiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cwblhau cynllun Pont Ddu a chysylltiadau â datblygiadau allweddol fel Pentre Awel, canol y dref a'r orsaf drenau. Am mai hon yw tref fwyaf Sir Gaerfyrddin, a chanddi'r dwysedd mwyaf o amddifadedd lluosog a thopograffi gwastad, mae tueddiad uchel i ddefnyddio dulliau teithio llesol ym mhob taith leol. Bydd yr Uwchgynllun yn cysylltu â chynllun arfaethedig Cyfnewidfa Llanelli ac amryw gynigion trafnidiaeth strategol ar gyfer Llanelli i greu rhwydwaith nad yw'n dibynnu ar y car preifat ar gyfer teithiau lleol. Bydd hyn hefyd yn cwmpasu cymunedau Bynea a Llangefni. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Trefi Marchnad y tu allan i Ardaloedd Adeiledig | Mae nifer o Drefi Marchnad allweddol Sir Gaerfyrddin islaw trothwy'r Ardaloedd Adeiledig o fewn y Ddeddf Teithio Llesol. Er gwaethaf hyn, mae'r awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cerdded a beicio fel dulliau teithio ar gyfer y cymunedau hyn. Bydd y cynllun hwn yn crisialu'r gwaith o gyflawni gwelliannau diogelwch Priffyrdd a Throedffyrdd sy'n gysylltiedig â'r galw. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflawni cynlluniau teithio llesol yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys: Llanybydder, Llandeilo, Talacharn, Hendy-gwyn ar Daf a Chastellnewydd Emlyn.  Ystyrier yn benodol gyfleoedd ar gyfer Llandysul i Bencader a Chastellnewydd Emlyn drwy Henllan, Cysylltiadau Llwybr Dyffryn Tywi. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Uwchgynllun Sanclêr | Datblygwyd rhwydwaith o lwybrau o'r blaen ar gyfer Sanclêr i gysylltu at atynwyr teithiau allweddol gan gynnwys addysg, y ganolfan hamdden, y stryd fawr leol a'r orsaf drenau arfaethedig. Mae gan y rhwydwaith hwn hefyd botensial i gysylltu â safle arfaethedig Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru os cadarnheir Sanclêr fel y lleoliad. Bydd ymgynghori pellach ac | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| | adolygiad dylunio o'r cynlluniau arfaethedig hyn yn digwydd cyn cais am gyllid. | | |
| Uwchgynllun y Tymbl | Datblygwyd Uwchgynllun y Tymbl drwy ymgynghori â thrigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu seilwaith hanfodol ar gyfer canolfan breswyl gynyddol y Tymbl. Nodwyd pecyn o fesurau i gynhyrchu rhwydwaith i'w weithredu. Mae'r pentref yn gwasanaethu swyddogaeth bwysig yn lleol, a chanddo ddwy ysgol a chyfleuster chwaraeon cymunedol ffyniannus. Mae ffordd feicio Swiss Valley yn darparu cysylltedd ymlaen i Cross Hands yn y gogledd a Llanelli yn y de. Bydd yr uwchgynllun yn darparu cysylltiadau o'r llwybr hwnnw ag atynwyr teithiau lleol allweddol. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Gaerfyrddin |
| Cynllun glan môr Aberafan | Gwella/adfywio ardal glan y môr yn Aberafan. Gwelliannau i lwybrau teithio llesol. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Cynllun Cardi Bach | Llwybr cyd-ddefnyddio ar y cyd rhwng CSC a CSP, rhwng Aberteifi a Hendy-gwyn ar Daf ar reilffordd segur. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro / Sir Gaerfyrddin |
| Llwybr teithio llesol Bryn i Goetre a chysylltiadau â Phort Talbot | Gwelliannau i'r ddarpariaeth teithio llesol sy'n cysylltu Port Talbot â Thaibach, Goetre a Bryn. Darparu gwelliannau i lwybrau lleol a llwybr beicio oddi ar y ffordd rhwng Bryn a Goetre. Gan gynnwys lledu a gosod pont newydd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Cysylltiadau teithio llesol datblygiad Coed Darcy | Gwelliannau teithio llesol sy'n cysylltu datblygiad tai Coed Darcy â'r rhwydwaith teithio llesol | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Cysylltiadau teithio llesol a phriffyrdd y cymoedd GCRE | Fel rhan o gynnig GCRE, mae potensial i'r cynllun wella'r cysylltiadau teithio llesol a phriffyrdd yn ardal Onllwyn, a gellid ehangu hyn i ardal adeiledig Blaendulais. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |

| Enw’r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Camlesi Nedd a Thenant – Gwelliannau teithio llesol | Darparu gwelliannau i'r llwybrau cerdded a beicio ochr yn ochr â Chamlesi Nedd a Thenant. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Llwybr teithio llesol Castell-nedd i Gimla | Datblygu cysylltiad teithio llesol rhwng Castell-nedd a Chimla. Bydd hyn yn cynnwys cyswllt beicio newydd a gwelliannau i'r seilwaith cerdded presennol. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Pont Ffordd Trecelyn | Darparu llwybr teithio llesol dros bont Heol Trecelyn (strwythur rhestredig gradd II) sy'n methu gan gynnwys gwell mynediad i Ddociau Port Talbot. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Uwchgynllun Teithio Llesol Port Talbot ac Aberafan | Darparu gwelliannau teithio llesol ar gyfres o lwybrau yn ardaloedd Aberafan a Phort Talbot. Gallai'r rhain amrywio o newidiadau ar raddfa fach fel darparu cyrbau isel a phalmantau botymog, i newidiadau ar raddfa fwy, megis creu traciau beicio newydd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Uwchgynllun Teithio Llesol Sandfields | Gwelliannau teithio llesol ar draws rhyw 29 o lwybrau ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn ardal Sandfields, Port Talbot. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau ar raddfa fach fel darparu cyrbau isel a phalmantau botymog, i newidiadau ar raddfa fwy fel creu traciau beicio newydd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Uwchgynllun Teithio Llesol Castell-nedd | Darparu gwelliannau teithio llesol ar ryw 47 o lwybrau ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn ardal canol tref Castell-nedd. Gallai'r rhain amrywio o newidiadau ar raddfa fach fel darparu cyrbau isel a phalmantau botymog, i newidiadau ar raddfa fwy, megis creu traciau beicio newydd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |
| Cyrchfan Wildfox – teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau priffyrdd | Gwelliannau amlfoddol i'r llwybrau teithio llesol lleol/rhwydwaith beicio cenedlaethol, trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau priffyrdd i hwyluso datblygiad cyrchfan Wildfox yn Nyffryn Afan. Parc gwyliau arfaethedig gan gynnwys cyfleusterau antur a lles yn Nyffryn Afan. Mae'r cynigion yn cynnwys tua 570 o gabanau gwyliau, gwesty 50 gwely a gwesty rhandy 15 gwely, parc dŵr dan do a chyfleusterau ceunanta. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Castell-nedd Port Talbot |

| Enw’r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Strategaeth E-Feiciau | Cyflwyno cynllun E-Feiciau ledled y Sir ac APCAP | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Llwybr Strategol Ateb Ynni | Ynni - llwybr strategol y de, sy'n cysylltu â Phenfro (Mynegbost i Benfro); - cysylltiad i ffwrdd â'r rhwydwaith beicio sydd wedyn yn dychwelyd i'r ffordd gerbydau | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Amlddefnydd Arberth i Hwlffordd | Cynllun Llwybr Cyd-ddefnyddio rhwng Arberth a Hwlffordd | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Croesffordd Maencoch - Llanddewi Felffre | Cynllun i gysylltu Arberth trwy Groesffordd Maencoch â rhwydwaith llwybr cyd-ddefnyddio Llanddewi Felffre. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Slippery Back | Cynllun seilwaith beicio | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Teithio Llesol Aberdaugleddau | Cyswllt Llwybr Cyd-ddefnyddio rhwng Steynton - Studdolph - Johnston wedi'i gyflenwi mewn dau gam | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Arberth - Kiln Park Rd | Ffurfio Llwybr Cyd-ddefnyddio ar hyd Kiln Park Road | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Penfro - Cynlluniau Allweddol Teithio Llesol | Yn cynnwys gwelliannau mewn Teithio Llesol o amgylch Penfro; tair ardal allweddol:  Pont y Felin i'r Argae; Pwll y Felin a Phont y Felin i'r dref | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Doc Penfro - Teithio llesol (Pennar) | Gwelliannau cysylltedd teithio llesol Pennar i'w gysylltu â Doc Penfro | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Doc Penfro | Llwybrau mwy diogel i'r ysgolion ym Mhenfro sy'n cynnwys: Prospect Place, Bush Street | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Teithio Llesol Prendergast | Gwelliannau yng nghymuned Prendergast i wella llwybrau cerdded beicwyr/cerddwyr presennol; gwelliannau Lôn Gefn rhwng Ysgol Uwchradd Hwlffordd ac Ysgol Gymunedol Prendergast | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Saundersfoot - Frances Road | Dylunio manwl (25/26) ac adeiladu Llwybr Cyd-ddefnyddio o Barc Gwyliau Scar Farm i Draeth Coppet (26/27). | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Saundersfoot - Sandy Hill | Dyluniad opsiwn a ffafrir, dadrisgio perchnogaeth tir ac ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer rhan Sandy Hill o lwybr cyd-ddefnyddio Saundersfoot. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Saundersfoot - Stammers | Adeiladu llwybr cyd-ddefnyddio fesul dipyn a rheoli traffig gan gynnwys newidiadau i gyffordd Cambrian Place i gefnogi diwylliant caffis. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr Cyd-ddefnyddio Llandudoch | Llwybr Cyd-ddefnyddio (SUP) a chynllun pedestreiddio sy'n cysylltu Llandudoch a Thraeth Poppit; yn cynnwys chwe chysylltiad | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Dinbych-y-pysgod - Croft i'r Glebe | Gwelliannau teithio llesol gan gynnwys dylunio manwl ac adeiladu rhwng y Glebe a'r Croft | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Dinbych-y-pysgod - y Glebe i faes parcio'r Green | Gwelliannau teithio llesol gan gynnwys dylunio manwl ac adeiladu rhwng y Glebe a'r Green | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Dinbych-y-pysgod - Cwrs Golff | Llwybr Cyd-ddefnyddio drwy Gwrs Golff Dinbych-y-pysgod | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Dinbych-y-pysgod - Penalun (Heywoods Lane) | Ffurfio Llwybr Cyd-ddefnyddio ar hyd Heywoods Lane | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Dinbych-y-pysgod - Penalun (Marsh Road) | Ffurfio Llwybr Cyd-ddefnyddio ar hyd Marsh Road (rhwng y Ganolfan Hamdden a Marsh Green). | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Dinbych-y-pysgod - The Clicketts | Ffurfio Llwybr Cyd-ddefnyddio ar hyd The Clicketts | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Llwybr 12 y Map Rhwydwaith Teithio Llesol | Cyswllt y Gronfa Teithio Llesol o fewn Canol Tref Hwlffordd Llwybr 12 | Teithio llesol / cerdded a beicio | Sir Benfro |
| Cyflwyno Map Rhwydwaith Teithio Llesol cymeradwy Cyngor Abertawe | Cyflwyno llwybrau a restrir ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Abertawe. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |
| Gwelliannau i'r seilwaith cerdded a beicio presennol o fewn Ffin Dinas a Sir Abertawe | Gwelliannau, gan gynnwys ehangu llwybrau cerdded a beicio presennol a gosod arwynebau newydd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Gwell cysylltiadau cerdded mewn cymunedau y tu allan i ardaloedd adeiledig (e.e. Gŵyr) | Gwella neu greu cysylltiadau cerdded newydd o fewn a rhwng cymunedau sydd y tu hwnt i'r dosbarthiad 'ardal adeiledig'. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |
| Gwell cysylltiadau cerdded a beicio wrth ymyl yr M4 - C44 a C45 | Gwelliannau i'r seilwaith cerdded a beicio sy'n cysylltu cymunedau ar draws C44 a C45. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |
| Gwell croesfannau Afon Tawe ar gyfer cerddwyr a beicwyr | Gwella cysylltiadau ar draws Afon Tawe ar gyfer cerddwyr, a beicwyr lle bo hynny'n bosibl, i wella cysylltedd a lleihau datgysylltiad. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |
| Cyflwyno safleoedd parcio a beicio ar raddfa fach | Pecyn o waith i sefydlu safleoedd parcio a beicio ar raddfa fach ar gyrion trefol Abertawe, gydag arwyddion a hyrwyddo cysylltiedig. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |
| Darparu cynllun llogi microsymudedd ledled dinas Abertawe | Cyflwyno neu alluogi cynlluniau llogi microsymudedd, i gynnwys beiciau mecanyddol ac e-feiciau, gyda'r potensial i gynnwys opsiynau trafnidiaeth sy'n dod i'r amlwg, fel e-sgwteri (yn amodol ar dreial neu newid deddfwriaeth). | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |
| Darparu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) ar draws | Darparu cynlluniau SRiC a Diogelwch ar y Ffyrdd ar draws Abertawe. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Abertawe |

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Abertawe a'r Rhaglen Diogelwch ar y Ffyrdd | | | |

**Cynlluniau amlfodd**

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Cyfnewidfa Trafnidiaeth Strategol Rhydaman | Gall datblygiadau arfaethedig yng Nghanol Tref Rhydaman olygu y bydd angen ailddatblygu'r Orsaf Fysiau. Dyma gyfle i ddarparu gwell cysylltedd rhwng bysiau a threnau, yn ogystal â seilwaith teithio llesol i gysylltu â Ffordd Feicio ehangach Dyffryn Aman sy'n darparu cyfleuster oddi ar y ffordd o Frynaman yn y gogledd-ddwyrain i Bant-y-ffynnon yn y de-orllewin. Bydd y cynllun hwn yn ceisio cynyddu tueddiad y rhai sy'n byw/gweithio/astudio yn Rhydaman a Dyffryn Aman ehangach i deithio'n gynaliadwy. Gall y cynllun hwn hefyd ystyried diwygiadau i'r rheilffordd bresennol i adleoli Gorsaf Drenau Rhydaman i ffurfio rhan o Fetro De-orllewin Cymru a chysylltu Rhydaman yn well ag Abertawe. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |
| Cyfnewidfa Trafnidiaeth Strategol Porth Tywyn | Buddsoddwyd yn helaeth eisoes ym Mhorth Tywyn i integreiddio bysiau / rheilffyrdd yn ddi-dor a sicrhau bod y gyfnewidfa bresennol yn gysylltiedig â chyfleuster teithio llesol llwybr arfordirol y mileniwm. Bydd y cynllun hwn yn darparu ehangiadau a gwelliannau pellach a fydd yn cefnogi'r cyfleuster troi'n ôl arfaethedig a fydd yn cael ei gyflwyno gan TrC/Network Rail fel rhan o Fetro De-orllewin Cymru. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |
| Gwelliannau Mynediad Tref Caerfyrddin | Dull cydlynol ar draws cyflogwyr mawr ac atynwyr teithiau yng Nghaerfyrddin ar draws y sector cyhoeddus a phreifat. Cydweithio â Hywel Dda a chyflogwyr mawr eraill. Anelu at leihau dibyniaeth ar y car preifat. Bydd hyn hefyd yn crisialu gwelliannau penodol yn ardal Pibrwylwyd/Pensarn i ddatgloi datblygiad ar raddfa fawr. Bydd y cynllun hwn hefyd yn ystyried natur dymhorol y llif traffig yng Nghaerfyrddin a | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | thrwyddi, gan nodi nifer o gyfnodau brig blynyddol ac effeithiau atynwyr teithiau a'u cynlluniau rheoli teithio ar y rhwydwaith ehangach. Yn ogystal â thargedu ffyrdd lleol, bydd y cynllun hwn yn ystyried pob modd ac yn lobïo asiantaethau rheilffyrdd a chefnffyrdd. | | |
| Cyfleusterau Trafnidiaeth Cynaliadwy Safle Datblygu Cross Hands (Cymoedd Aman a Gwendraeth) | Dull integredig o gefnogi'r safleoedd cyflogaeth a manwerthu sy'n ehangu yn Cross Hands, gan gynnwys buddsoddiad mawr arfaethedig a fydd yn cynhyrchu symudiadau cerbydau nwyddau trwm / mawr ychwanegol a nifer fawr o gyfleoedd gwaith hygyrch i'r gymuned leol. Bydd y cynllun yn ystyried atebion trafnidiaeth cynaliadwy gan gynnwys teithio llesol, cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth seiliedig ar alw a rhannu ceir i gyfyngu ar yr effaith ar y rhwydwaith ehangach. Bydd y cynllun hefyd yn ystyried rôl ddeuol Cross Hands fel canolfan gymudwyr lle mae preswylwyr yn defnyddio’r rhwydwaith ffyrdd strategol yn rheolaidd i gymudo o fewn a’r tu allan i'r rhanbarth ar gyfer cyflogaeth ac addysg. Efallai bydd atebion posibl i leihau’r ddibyniaeth ar deithiau ceir untro ar gyfer y gymuned hon yn cynnwys cymhellion rhannu ceir, mwy o wasanaethau bysiau a Chlybiau Ceir / trafnidiaeth seiliedig ar alw. Bydd y cynllun hwn hefyd yn crisialu gwelliannau ehangach ar draws Cymoedd Gwendraeth ac Aman (ardaloedd sylweddol o amddifadedd lluosog) i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o fuddsoddiad i’r ardal ehangach a sicrhau mynediad cynaliadwy i gyfleoedd cyflogaeth. Bydd y cynllun hwn hefyd yn cwmpasu creu gwasanaeth bws cyflym rhwng cymunedau Llanelli, Cross Hands a Hendy i greu cysylltedd cludiant cyhoeddus lle mae prinder ar hyn o bryd. Bydd hyn hefyd yn cwmpasu Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Economaidd Rhydaman a Cham 3 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella Mynediad Economaidd, Addysg a Chyflogaeth Llanelli | Cynllun sy'n canolbwyntio ar gefnogi'r ystod eang o ddatblygiadau sy'n cael eu cynnal yn Llanelli ar hyn o bryd, gan gynnwys, er enghraifft, Pentre Awel, Parc Trostre/Parc y Scarlets, trawsnewid Tŷ Isha, Cyfnewidfa Llanelli. Bydd y cynllun yn creu seilwaith trafnidiaeth sy'n denu mewnfuddsoddiad ac yn gwella hyfywedd economaidd a chynaliadwyedd Llanelli fel prif dref. Bydd y cynllun yn sicrhau bod y seilwaith ar waith i hwyluso'r galw cynyddol am drafnidiaeth. Bydd hyn yn anelu at ddarparu cysylltiadau â'r Gorsafoedd Trenau a Bysiau presennol, cyfnewidfa drafnidiaeth arfaethedig, Llwybr Arfordir y Mileniwm, Llwybr Teithio Llesol Meingefn Llanelli a'r rhwydwaith ffyrdd strategol. Bydd y cynllun yn ystyried deuoli'r A4138. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |
| Cyfnewidfa Amlfodd Llanelli | Mae tir wedi'i gaffael i'r de o Orsaf Drenau Llanelli i adeiladu cyfnewidfa drafnidiaeth a fydd yn caniatáu i fysiau wasanaethu'r Orsaf yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, nid yw bysiau lleol yn gallu gwasanaethu'r orsaf oherwydd cyfyngiadau ar y rhwydwaith gan gynnwys y groesfan reilffordd ar Ffordd yr Orsaf, ac mae Gorsaf Fysiau Llanelli tua milltir o'r Orsaf Drenau. Bydd y cynllun yn ymgorffori mesurau teithio llesol, gan gysylltu â gwelliannau yn y cyffiniau agos sy'n darparu cysylltedd ar draws y dref a'r ardal ehangach. Bydd hefyd yn darparu ar gyfer tacsis, cerbydau allyriadau isel iawn, parcio cymunedol a thrafnidiaeth seiliedig ar alw a phobl â llai o symudedd. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |
| Gwelliannau Cyffordd Llain Arfordirol a Threfol Llanelli | Mae lefel uchel o alw cyhoeddus a gwleidyddol am gynllun i wella mynediad amlfodd i ardal ehangach Llanelli. Pecyn o fesurau i wella amseroedd teithio trafnidiaeth gyhoeddus, gan ddarparu amgylchedd mwy diogel a hygyrch ar gyfer dulliau Teithio Llesol trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi symudiad priffyrdd hwylus ac wrth wneud hynny darparu ar gyfer gwelliannau rhyng-gysylltedd a mewngysylltedd ar gyfer Llanelli, o'r M4 yn y Gogledd, i ffin Abertawe yn y dwyrain a Phenrhyn Pen-bre yn y gorllewin. Llanelli yw tref fwyaf Sir Gaerfyrddin ac mae'n cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd y cynllun hwn yn ceisio defnyddio'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i ddarparu rhwydwaith sy'n darparu mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau allweddol i gymunedau yn Llanelli ac sy'n hwyluso twf economaidd yn y dref. Bydd hyn yn cynnwys yn | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | benodol (er enghraifft) - gwelliannau ar Sandy Road a'r cyffyrdd cysylltiedig, Talyclun, Trostre a Halfway, Penrhyn Pen-bre. | | |
| Canolfan Trafnidiaeth Gynaliadwy a Gwelliannau Mynediad Datblygiad Nant y Caws | Datblygu safle cyflogaeth mawr, sy'n ymgorffori cyfleusterau Gwastraff, ailgylchu, economi gylchol a sgiliau gwyrdd a chyfleusterau depo cysylltiedig (gan gynnwys potensial ar gyfer canolfan fysiau strategol a chyfleusterau cynnal a chadw cerbydau) ochr yn ochr â Hyb Gwefru Cerbydau Trydan gyda chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer y sector cyhoeddus. Bydd cynigion yn ystyried dull amlfodd, gan hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy a llesol. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |
| Mynediad Trafnidiaeth Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | Cynllun i gefnogi datblygiad cynnig Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru newydd BIP Hywel Dda ar un o'r safleoedd arfaethedig yng ngorllewin y sir. Oherwydd angen sylweddol yn y galw am drafnidiaeth ar draws pob modd, bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn y naill safle neu'r llall i sicrhau bod yr effaith ar y rhwydwaith ehangach yn cael ei lleihau cymaint â phosibl a bod moddau llesol a chynaliadwy yn cael eu blaenoriaethu lle bynnag y bo modd. | Cynlluniau amlfodd | Sir Gaerfyrddin |
| Castell-nedd - Port Talbot - Abertawe | Cysylltiad mawr trwy brif ardaloedd trefol y rhanbarth. Coridor allweddol ar gyfer mynediad i'r Porthladd Rhydd a datblygiadau mawr. Cyfyngiad capasiti Cyffordd 43 yr M4 | Cynllun amlfodd | Castell-nedd Port Talbot |
| Canolfan Drafnidiaeth Integredig Castell-nedd | Darparu cyfnewidfa bysiau a threnau newydd yng Ngorsaf Drenau Castell-nedd i ddarparu gwell cyfleoedd ar gyfer teithiau integredig. | Cynlluniau amlfodd | Castell-nedd Port Talbot |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Astudiaethau Dichonoldeb y Porthladd Rhydd Celtaidd | Cyfres o astudiaethau dichonoldeb o fewn y Porthladd Rhydd Celtaidd arfaethedig i asesu goblygiadau safleoedd treth a safleoedd datblygu strategol | Cynllun amlfodd | Sir Benfro |
| Abergwaun – Porthladd Fferïau | Newidiadau i Orsaf Abergwaun/Wdig i wella cysylltiadau bws/trên. | Cynllun amlfodd | Sir Benfro |
| Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Aberdaugleddau | Gwelliannau rheilffordd ar gyfer mwy o gapasiti rheilffyrdd a chysylltiadau bws/beicio | Cynllun amlfodd | Sir Benfro |
| Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Doc Penfro | Gwelliannau i'r priffyrdd i gysylltu â'r orsaf drenau a darparu gwell newid moddol (pwyntiau bysiau) | Cynllun amlfodd | Sir Benfro |
| Hwlffordd - Aberdaugleddau (gan gynnwys y Porthladd Rhydd) | Yn cynnwys cyffordd Pont Fadlen yn Hwlffordd. Ym mhob lleoliad mae problemau diogelwch, amwynder a chapasiti ffyrdd yn bodoli. Mae gan y rheilffordd gapasiti cyfyngedig ac mae gwasanaethau'n gyfyngedig. Ceir gwasanaeth bws bob hanner awr. | Cynllun amlfodd | Sir Benfro |
| Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Cwm Tawe | Cynllun i wella a chyflwyno opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy amlfodd ar hyd coridor allweddol i ganol dinas Abertawe. Mae graddau'r cynllun rhwng Clydach a'r Mwmbwls. | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Cyswllt Gogledd Dinas Abertawe | Cynllun i wella a chyflwyno opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy amlfodd ar hyd coridor allweddol i ganol dinas Abertawe. Mae graddau'r cynllun rhwng Pont Llwchwr a gorsaf y Stryd Fawr, gan gynnwys cyffordd Dyfaty. | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Gorllewin Abertawe | Gwelliannau trafnidiaeth gynaliadwy i gynnwys darpariaeth teithio llesol a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ar hyd yr A4118 rhwng Cilâ a chanol dinas Abertawe. | Cynllun amlfodd | Abertawe |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Llangyfelach i Abertawe | Cynllun i wella a chyflwyno opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy amlfodd ar hyd coridor allweddol i ganol dinas Abertawe. Mae graddau'r cynllun rhwng Llangyfelach (B4489) a chyffordd Dyfaty (Stryd y Bont). | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Gwelliannau Coridor Ffordd Fabian (gan gynnwys prosiect Morlyn Llanw) | Rhaglen o waith, yn canolbwyntio'n bennaf ar ailosod Pont Baldwin, gan alluogi estyniad Langdon Road i Baldwins Crescent a'r A483. Byddai ffordd gyswllt newydd yn cael ei hadeiladu fel rhan o'r cynllun hwn. Gallai'r rhaglen hon o waith ddatblygu ochr yn ochr â'r morlyn llanw a datblygiadau eraill ar hyd coridor Ffordd Fabian, a’u hategu, neu ddatblygu ar ei phen ei hun. | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Ffordd Gyswllt Ysbyty Treforys | Cymorth i gyflawni ffordd gyswllt Ysbyty Treforys (a ariennir gan y GIG). | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer - Ymyriadau Trafnidiaeth | Darparu ymyriadau trafnidiaeth sy'n lleihau effaith trafnidiaeth ffordd yn yr ARhAA yn Abertawe. | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Uwchraddio mynediad a phontydd Bryntywod - Felindre | Cynllun i ategu cyflawni uchelgeisiau ehangach Felindre, gan ddarparu mynediad ac uwchraddio pontydd o Fryntywod. | Cynllun amlfodd | Abertawe |
| Treialu / cyflwyno AI a thechnolegau trafnidiaeth sy'n dod i'r amlwg i gefnogi System Rheoli Traffig Trefol Abertawe | Galluogi rheolaeth effeithlon ar drafnidiaeth drwy ddefnyddio data a thechnolegau trafnidiaeth sy'n dod i'r amlwg i wella dibynadwyedd amseroedd teithio ar draws y rhwydwaith, yn benodol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. | Cynllun amlfodd | Abertawe |

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for
South West Wales

**Cydnerthedd rhwydwaith**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gallu seilwaith priffyrdd allweddol i wrthsefyll yr hinsawdd | Rhaglen i nodi seilwaith rhwydwaith sydd mewn perygl o lifogydd neu fethiant oherwydd tywydd eithafol er mwyn diogelu llwybrau trafnidiaeth gynaliadwy rhwng cymunedau a gwasanaethau allweddol. | Cydnerthedd rhwydwaith | Sir Gaerfyrddin |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Scurlage i Gornel Llanddewi | Cynllun i liniaru'r digysylltiad cymunedol a achosir gan lifogydd, gan effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd ehangach y gymuned. | Cydnerthedd rhwydwaith | Abertawe |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Sgwâr Cilâ | Cynllun i liniaru'r digysylltiad cymunedol a achosir gan lifogydd, gan effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd ehangach y gymuned. | Cydnerthedd rhwydwaith | Abertawe |

**Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (Cyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu strategaeth trafnidiaeth gymunedol / trafnidiaeth seiliedig ar alw (DRT) a chyflawni cynnydd | Datblygu a gweithredu strategaeth trafnidiaeth gymunedol a thrafnidiaeth seiliedig ar alw sy'n nodi sut y gall y moddau gefnogi gwasanaethau bysiau wedi'u hamserlennu i greu system drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch sy'n diwallu anghenion penodol cymunedau amrywiol Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn cynnwys posibilrwydd sefydlu Parth DRT Gorllewin, parth DRT Dyffryn Tywi, parhad prosiect Bwcabus / Fflecsi, Parthau DRT ychwanegol a gweithredu un Ganolfan Trafnidiaeth Gymunedol/DRT ganolog. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni CTRh) | Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwelliannau Gwasanaeth a Gwelliannau Coridor Bysiau Caerfyrddin i Abertawe drwy Lanelli (gwasanaeth X11/X13) | Gwneud gwasanaethau X11/X13 sy'n rhedeg rhwng Caerfyrddin, Rhydaman, Llanelli ac Abertawe yn amlach. Dyma ddau o wasanaethau mwyaf poblogaidd y rhanbarth ac maent yn darparu cysylltedd rhwng y prif ardaloedd trefol, gan gynnig cyfle i newid modd o'r car preifat. Byddai cynnig y gwasanaethau hyn yn amlach yn eu gwneud yn ddewis arall mwy ymarferol i'r car preifat, ynghyd â gwelliannau dibynadwyedd amser teithio a nodwyd yn y CTRh. Byddai profi'r seilwaith angenrheidiol i gynyddu dibynadwyedd amser teithio ar y llwybrau hyn yn eu gwneud yn fwy poblogaidd, ac felly'n fwy hyfyw yn fasnachol, gan gynyddu awydd gweithredwyr i gynyddu amlder gwasanaeth felly, gan greu effaith lluosydd gadarnhaol. Bydd y cynllun hwn hefyd yn ceisio gwella seilwaith ar hyd y coridor. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Sir Gaerfyrddin |
| Cyfnewidfa fysiau'r Cymer | Gwelliannau i'r gyfnewidfa fysiau yn y Cymer | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Gorsaf fysiau Port Talbot | Gwelliannau i'r orsaf fysiau ym Mhort Talbot i wella teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus a hwyluso twf economaidd yn y dref. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Lôn fysiau Windsor Road | Darparu lôn fysiau ar Windsor Road yng Nghastell-nedd | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Cynlluniau Parcio a Theithio | Johnston, New Hedges, Castell Caeriw i gefnogi Adeiladu'r Porthladd Rhydd Celtaidd | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |
| Gwelliannau Bysiau – Seilwaith Ffyrdd | Gwelliannau i'r briffordd ar gyfer llwybrau bysiau (h.y. cilfachau pasio, mannau aros) ledled y sir | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Blaenoriaeth Bws Dredgeman's Hill | Gwella coridor trafnidiaeth rhwng Hwlffordd a Johnston | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |
| Ehangu Llwybrau Bysiau Blaenoriaeth Allweddol | Gweithio tuag at y rhwydwaith bysiau uchelgeisiol, a'i ariannu, gan gynnwys gwelliannau i amlder gwasanaeth bysiau / gwasanaeth penwythnos/nos ar gyfer llwybrau blaenoriaeth Edrych ar fesurau i ddatrys prinder gyrwyr yn yr ardal. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |
| Cysylltedd Gorsaf Drenau a Bysiau Pellter Hir | Darparu llwybrau bws pellter hir wedi'u huwchraddio ar gyfer gwell darpariaeth hygyrchedd/symudedd; gwell mynediad i orsaf drenau Hwlffordd ar gyfer bysiau trwy addasu ffyrdd i gyfleusterau troi/parcio. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |
| Gwelliannau Cyfnewidfa Gorsaf Drenau Canol Abertawe | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Gwelliannau Cyfnewidfa Gorsaf Drenau Tregŵyr / Canolfan Drafnidiaeth Gyhoeddus | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyfnewidfa Gorsaf Drenau Pontarddulais / Canolfan Drafnidiaeth Gyhoeddus | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyfnewidfa Gorsaf Drenau Llansamlet a Seilwaith Ategol | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnewidfa Gorsaf Glandŵr a Seilwaith Ategol | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau (os caiff ei sefydlu), gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyfnewidfa Gorsaf y Cocyd a Seilwaith Ategol | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau (os caiff ei sefydlu), gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus y Mwmbwls | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Treforys | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Gwelliannau Gorsaf Fysiau Gorseinon | Gwelliannau yn yr orsaf a'i chyffiniau, gan gynnwys gwell mynediad i gerddwyr a beiciau, lleoedd addas i barcio beiciau, cyfleusterau cyfnewidfa a seilwaith cysylltiedig, gan wella profiad teithwyr ar draws pob modd. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyflwyno Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw mewn ardaloedd gwledig (e.e. Gŵyr / Mawr) | Darparu trafnidiaeth seiliedig ar alw a thrafnidiaeth gymunedol i wasanaethu ardaloedd gwledig, ac integreiddio lle bo hynny'n bosibl gyda'r gwasanaethau trafnidiaeth presennol. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Cyfleuster Parcio a Theithio newydd Glandŵr | Cyfleuster amgen ar gyfer Parcio a Theithio Glandŵr a nodi lleoliadau canolfan symudedd atodol. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth bws trefol mewn ardaloedd allweddol o oedi uchel a bwysolwyd ar sail teithwyr | Nodi materion rhwydwaith sy'n cyfrannu at ddibynadwyedd amser teithio gwael, oedi a bwysolwyd ar sail teithwyr a dylunio a gweithredu mesurau gwella. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Uwchraddio Cysgodfannau Bysiau / Cyfleusterau Aros ar draws Dinas a Sir Abertawe | Gwella cyfleusterau aros i deithwyr ar draws y rhwydwaith. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Gwella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith cysylltiedig | Gwella mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy ar draws Abertawe, gan gynnwys atynwyr teithiau a chyrchfannau twristiaeth allweddol, gwella darpariaeth gwasanaethau a/neu seilwaith i wella taith y teithwyr. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus ar hyd llwybrau bws 'X' rhwng Abertawe ac awdurdodau cyfagos | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn ffiniau Dinas a Sir Abertawe sy'n hwyluso teithiau rhwng Abertawe a Sir Gaerfyrddin, ac Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Gwybodaeth Amser Real i Deithwyr | Datblygu a gweithredu gwybodaeth amser real i deithwyr ledled Abertawe, gan gynnal cysondeb ag awdurdodau cyfagos. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Bws Dim Allyriadau | Galluogi cyflawni system drafnidiaeth gyhoeddus wedi'i datgarboneiddio. | Gwelliannau trafnidiaeth | Abertawe |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | |
| Canolfannau Gwefru Bysiau Trydan mewn nodau allweddol ar draws Abertawe | Cefnogi cyflwyno bws allyriadau isel iawn gyda seilwaith gwefru ategol, lle bo hynny'n briodol. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |
| Canolfan Fysiau Hydrogen Ffordd Fabian | Darparu canolfan fysiau ail-lenwi hydrogen ar Ffordd Fabian, gan weithio gyda phartneriaid allweddol i alluogi cyflenwi. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Abertawe |

**<u>Rheilffyrdd</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell Gwasanaeth Rheilffordd i Sir Benfro | Cynyddu'r gwasanaeth rheilffordd i 1 trên yr awr ar gyfer pob gorsaf drwy gydol y flwyddyn. | Rheilffyrdd | Sir Benfro |
| Seidins Rheilffordd Llandyfái | Gwell seidins rheilffordd yn Llandyfái i gefnogi cludo nwyddau ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd | Rheilffyrdd | Sir Benfro |

**<u>Cynlluniau cydnerthedd</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gallu Seilwaith Priffyrdd Allweddol i Wrthsefyll yr Hinsawdd | Rhaglen i nodi a mynd i'r afael â seilwaith ar hyd y rhwydwaith priffyrdd sydd wedi methu neu sydd mewn perygl o ddifrod oherwydd tywydd eithafol. Cyflawni gwelliannau sy'n gwella cydnerthedd y seilwaith. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen wedi'i blaenoriaethu a'i chydlynu ar sail risg o brosiectau traws-asedau, gan ddefnyddio model blaenoriaethu sy'n cael ei yrru gan ddata a gefnogir gan systemau arolygu a meddalwedd AI arloesol. | Cynlluniau cydnerthedd | Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Pontydd Is-Safonol a Phecyn Gwella Pontydd | Mae Gweithgarwch Economaidd, Cynhwysiant Cymdeithasol a Diogelu/Cydnerthedd yr Amgylchedd yn sbardunau allweddol sy'n gysylltiedig â'r angen i sicrhau nad yw cyfyngiadau pwysau a strwythurau pontydd is-safonol yn arwain at ddatgysylltu cymunedol, dargyfeiriadau hir i gerbydau nwyddau trwm niweidiol a llygrol ac, yn bwysig, nad yw'r ddarpariaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus a Theithio Llesol yn y cymunedau hyn a rhyngddynt yn cael eu cyfaddawdu ac yn uwchraddio hyd at gapasiti 40t. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw strwythurol hollbwysig. | Cynlluniau cydnerthedd | Sir Gaerfyrddin |
| Cyffordd Ffordd Cimlâ - Gwella capasiti canol tref Castell-nedd | Lliniaru cyffordd o dagfeydd sylweddol yng Nghastell-nedd, sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ddatblygiad economaidd a thai ac yn amharu ar wasanaethau bws. Gwelliannau i gapasiti'r briffordd a ddarperir trwy ddull amlfodd. | Cynlluniau cydnerthedd | Castell-nedd Port Talbot |
| Gwelliannau capasiti ABP (porthladd rhydd) Glannau'r Harbwr | Gwella mynediad i ddatblygiad y porthladd rhydd yn y rhanbarth, er mwyn galluogi teithio cynaliadwy i'r datblygiad graddfa fawr. | Cynlluniau cydnerthedd | Castell-nedd Port Talbot |
| Gwella capasiti cylchfan Rutherglen / Seaway Parade (porthladd rhydd) | Er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd capasiti ar y rhwydwaith priffyrdd yn dilyn datblygu'r porthladd rhydd, adolygiad o'r rhwydwaith priffyrdd presennol i bennu gwelliannau amlfodd. | Cynlluniau cydnerthedd | Castell-nedd Port Talbot |
| Gwella capasiti - Coleg Castell-nedd a'r ardal gyfagos | Lliniaru cyffordd o dagfeydd sylweddol yng Nghastell-nedd, sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ddatblygiad economaidd a thai ac yn amharu ar wasanaethau bws. Gwelliannau i gapasiti'r briffordd a ddarperir trwy ddull amlfodd. | Cynlluniau cydnerthedd | Castell-nedd Port Talbot |
| Cynllun gwella draenio Ffordd Fabian | Gwelliannau draenio i atal llifogydd ar y ffordd gerbydau. | Cynlluniau cydnerthedd | Castell-nedd Port Talbot |
| Strategaeth Mynediad i'r Arfordir | Gwell mynediad i'r arfordir mewn modd cynaliadwy | Cynllun Cydnerthedd | Sir Benfro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Coridor Teithio Gogledd Hwlffordd | Coridor teithio posibl i'r gogledd sy'n cysylltu'r A40 â'r A487, i ddarparu ffordd liniaru'r gogledd ar gyfer Hwlffordd i Dyddewi | Cynllun Cydnerthedd | Sir Benfro |
| Addasiad Arfordirol Niwgwl | Cymorth parhaus i raglen Addasu Arfordirol Niwgwl a ffordd liniaru | Cynllun Cydnerthedd | Sir Benfro |
| Ehangu Penfro - West Hill | Ehangu West Hill, Penfro, i alluogi llif traffig cerbydau nwyddau trwm i gefnogi datblygiad Porthladd Rhydd Celtaidd yn y dyfodol | Cynllun Cydnerthedd | Sir Benfro |

**Ffyrdd a pharcio (Cyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asesu a mynd i'r afael ag uniondeb strwythurol Maes Parcio Murray Street | Asesu a mynd i'r afael ag uniondeb strwythurol Maes Parcio Murray Street. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Gaerfyrddin |
| Datblygu a chyflawni Rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn Sir Gaerfyrddin | Datblygu a chyflawni Rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn Sir Gaerfyrddin | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Gaerfyrddin |
| Mannau Cyfyng Diogelwch ar y Ffyrdd Gwledig | Gwelliannau i fynd i'r afael â mannau cyfyng a gwella amodau'r llwybrau rhwng yr A484 Caerfyrddin, Castellnewydd Emlyn, Cenarth ac Aberteifi, yr A485 Alltwalis, Windy Corner a Llanbedr Pont Steffan ac ar hyd yr A482 rhwng Llanwrda a Llanbedr Pont Steffan. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Gaerfyrddin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gogledd Sir Gaerfyrddin | | | |
| Rhaglen adfer ffyrdd i gyflawni lefelau cyflwr cyson sylfaenol | Pecyn o fesurau i gynnal cyflwr y briffordd ar draws y sir, gan ddarparu cysylltedd gwledig ac atal dirywiad mawr. Gwella cynllunio cylch bywyd ar gyfer asedau priffyrdd trwy fuddsoddi mewn triniaethau ataliol i leihau costau i genedlaethau'r dyfodol. Defnyddio mwy o ddeunyddiau a dulliau adeiladu carbon isel i helpu i gyrraedd targedau Sero Net. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Gaerfyrddin |
| Diweddaru'r Strategaeth Barcio a'r Polisi Gorfodi Parcio presennol | Creu strategaeth barcio newydd, gan gyfeirio at ddefnyddio technoleg ddigidol ar gyfer rheoli a gorfodi meysydd parcio, gan annog systemau dynamig sy'n cefnogi canol trefi ffyniannus. Diweddaru'r polisi parcio presennol, gan annog themâu sy'n cefnogi canol trefi ffyniannus ac yn annog gwell defnydd o'r capasiti presennol. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Gaerfyrddin |
| Coed Darcy – Ffordd fynediad i'r de | Ffordd a phont fynediad newydd sy'n cysylltu datblygiad tai Coed Darcy â'r rhwydwaith priffyrdd a theithio llesol | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Gwelliannau i ffordd gerbydau'r Cymer | Gwella'r ffordd gerbydau er mwyn i gerbydau mwy o faint gael at bentrefi Glyncorrwg ac Abercregan yn dilyn cau pont y Cymer sy'n methu. (Pont Newydd / cynllun datgysylltu) | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Cysylltiadau canolfan Port Talbot â ffordd harbwr SWWITCH | Gwella seilwaith amlfodd rhwng Canolfan Drafnidiaeth Port Talbot a'r ardal ddatblygu ar Lannau'r Harbwr. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Seilwaith Parc Ynni Baglan | Seilwaith i alluogi ehangu'r ardal gyflogaeth ym Mharc Ynni Baglan a galluogi gweithwyr i deithio trwy foddau cynaliadwy | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Castell-nedd Port Talbot |
| Cynllun dargyfeirio cerbydau nwyddau trwm Arberth | Dargyfeirio cerbydau nwyddau o amgylch Arberth trwy Kiln Park Road | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwm Abergwaun | Mae gwelliannau i'r droedffordd, yn enwedig dros y bont, yn mynd trwy gefnffordd, fel gwelliannau teithio llesol. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |
| Cylchfan Prendergast | Ad-drefnu cyffordd Ffordd Aberteifi Prenderagast i gylchfan fach | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |
| Tagfeydd Sgwâr Salutation | Gwelliannau Teithio Llesol a Chapasiti Cyffyrdd trwy Hwlffordd, gan ganolbwyntio ar yr ardal o amgylch Sgwâr Salutation | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Sir Benfro |

**Cynlluniau Cerbydau Allyriadau Isel Iawn**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cerbyd sbwriel hydrogen MREC | Cerbyd sbwriel hydrogen MREC | Cerbydau allyriadau isel iawn | Castell-nedd Port Talbot |
| Pwyntiau gwefru cerbydau trydan gorsaf drosglwyddo MREC i gerbydau gwastraff | Pwyntiau gwefru cerbydau trydan gorsaf drosglwyddo MREC i gerbydau gwastraff | Cerbydau allyriadau isel iawn | Castell-nedd Port Talbot |
| Cerbydau allyriadau isel iawn - Rhaglen Wefru | Darparu Gwefru Cyrchfan, cyfleusterau gwefru hyb, a rhaglen wefru ar y stryd ledled Sir Benfro i wella'r rhwydwaith presennol. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Sir Benfro |
| Cerbydau allyriadau isel iawn - Cam 6 (Gwefru Cyflym) | Uwchraddio gwefru cyflym a gosod gwefryddion chwim newydd | Cerbydau allyriadau isel iawn | Sir Benfro |
| Gwelliannau Grid a Seilwaith Hydrogen - Ynni | Gwelliannau Seilwaith a Phiblinell Hydrogen i gynyddu cynhyrchiad a defnydd hydrogen yn Sir Benfro. Gwelliannau i'r Grid Cenedlaethol o | Cerbydau allyriadau isel iawn | Sir Benfro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ran datblygiad yn Sir Benfro yn y dyfodol ar gyfer seilwaith a phreswyl. Chwilio am fysiau hydrogen. | | |
| Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan 'chwim' ger coridorau trafnidiaeth allweddol yn Abertawe | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan 'chwim' mewn lleoliadau allweddol sy'n darparu gwefru 'ychwanegol' yng nghanol Abertawe i ddarparu ar gyfer perchnogion cerbydau preifat a gweithredwyr tacsis, yn ogystal â gwefryddion 'chwim' wedi'u gosod yn agos at goridorau neu gyrchfannau trafnidiaeth allweddol. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Abertawe |
| Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan 'cyflym' ym meysydd parcio Cyngor Abertawe, a chanolfannau ardal ar y stryd | Gosod pwyntiau gwefru 'cyflym' ar dir sy'n eiddo i'r cyngor ac sy'n cael ei weithredu ganddo, gan gynnwys ym meysydd parcio'r cyngor ac mewn cilfachau parcio ger ardaloedd siopa mewn cymunedau llai o faint. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Abertawe |
| Gosod pwyntiau gwefru preswyl ar y stryd neu yng nghyffiniau ardaloedd preswyl yn Abertawe | Gosod pwyntiau gwefru ar y stryd mewn eiddo preswyl neu o gwmpas eiddo preswyl lle mae diffyg lle parcio oddi ar y ffordd yn amlwg. Mae hyn yn cynnwys gosod ar y briffordd mewn cilfachau gwefru priodol, neu mewn mannau parcio preswyl dynodedig ger ardal breswyl. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Abertawe |

## Cynlluniau Rhanbarthol

Mae'r cynlluniau rhanbarthol a restrir isod yn ymyriadau sy'n berthnasol i bob lleoliad yn Ne-orllewin Cymru.

| Enw’r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Pecynnau mynediad i gyflogwyr allweddol | Mae cyflogwyr allweddol yn darparu crynodiadau o gyflogaeth. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Monitro a Gwerthuso Teithio Llesol Rhanbarthol | Sicrhau bod y rhanbarth yn cydweithio i broses sy'n caniatáu monitro a gwerthuso cynllun teithio llesol cadarn i gynyddu tueddiad i deithio'n llesol. Dylai'r cynllun hwn gynyddu gwerth buddsoddiad cyfalaf ar foddau llesol ar draws y rhanbarth drwy sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro'n agos. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Hyrwyddo Teithio Llesol Rhanbarthol | Sicrhau bod y rhanbarth yn cydweithio i broses sy'n hyrwyddo cynlluniau i'w potensial mwyaf i gynyddu tueddiad i deithio'n llesol. Dylai'r cynllun hwn gynhyrchu deunydd hyrwyddo sy'n hybu ymwybyddiaeth ac yn cynhyrchu newid modd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Seilwaith Cefnogi Beicio a Chynllun Llogi Beiciau Rhanbarthol | Bydd y cynllun hwn yn cynnal dadansoddiad bwlch o'r ddarpariaeth bresennol ar draws y rhanbarth i ddeall ymhle mae angen seilwaith gan gynnwys (er enghraifft) mannau parcio beiciau, gorsafoedd trwsio beiciau, gwefru e-feiciau. Bydd hyn hefyd yn ystyried cyflwyno gwasanaeth llogi beiciau ymhellach, gan gynnwys llogi E-feiciau mewn lleoliadau ar draws y rhanbarth. Bydd y cynllun yn ystyried anghenion unigryw'r pedwar awdurdod yn y rhanbarth wrth geisio darparu seilwaith sy'n cefnogi'r rhwydwaith cyfan ac sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n ei ddefnyddio a defnyddwyr y dyfodol, gan gynyddu'r tueddiad i feicio. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Treialon E-sgwteri Rhanbarthol (Symudedd Trefol) | Treialu datblygiad cynllun symudedd trefol E-sgwteri i ddarparu gwasanaeth llogi E-sgwteri hyblyg i'w defnyddio yng nghanol trefi. Byddai hyn yn cynnig dewis arall i'r car preifat ar gyfer teithiau byrrach ac yn integreiddio â dulliau trafnidiaeth gyhoeddus i hwyluso milltir gyntaf a milltir olaf teithiau. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Ranbarthol Diogelwch ar y Ffyrdd a Gwella Priffyrdd | Rhaglen o ymyriadau sy'n seiliedig ar alw i sicrhau gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd yn lleol i droedffyrdd a phriffyrdd o fewn cymunedau, gan gynnal yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy a blaenoriaethu cerddwyr. Bydd y cynllun hwn yn cydnabod anghenion unigryw'r pedwar awdurdod yn y rhanbarth ac yn sicrhau bod blaenoriaethu lleol yn cael ei gymhwyso. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhanbarthol | Cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Rhanbarth, yn enwedig lle mae hawliau tramwy cyhoeddus yn diwallu swyddogaeth er mwyn i gerddwyr a beicwyr gwblhau teithiau cyfleustod a chysylltu â'r rhwydwaith Teithio Llesol ehangach. Canolbwyntio ar strwythurau a phontydd yn y cynllun sy'n darparu cysylltiadau hollbwysig ac sy'n wynebu'r risg o gau a thorri'r rhwydwaith. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Llwybrau Diogel Rhanbarthol mewn Cymunedau | Datblygu a chyflwyno cynlluniau cerdded a beicio parhaus a ddarperir drwy'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, drwy broses gysylltiedig ac ymgynghori helaeth i greu cynlluniau sy'n diwallu anghenion penodol cymunedau amrywiol y Rhanbarth. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Strydoedd Ysgol Rhanbarthol | Datblygiad parhaus cynlluniau Strydoedd Ysgol sy'n anelu at greu amgylcheddau mwy diogel y tu allan i ysgolion drwy gyfyngu mynediad i gerbydau, er budd diogelwch ar y ffyrdd a chynyddu tueddiad teuluoedd i gerdded a beicio i'r ysgol. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Cynllunio Teithio i'r Ysgol Rhanbarthol | Datblygu dull unedig ar draws y Rhanbarth, ar y cyd â Sustrans, i sicrhau bod pob ysgol ar draws y sir yn cael cyfle i gynhyrchu, mabwysiadu a chyflwyno Cynllun Teithio i'r Ysgol. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Hyfforddiant Beicio Ysgol Gyfan Rhanbarthol a Darparu Cyfleusterau Cysylltiedig | Cydweithio â Sustrans a chydweithwyr Diogelwch Ffyrdd mewnol i sicrhau bod plant ym mhob cyfnod o'r ysgol gynradd yn cael cynnig addysg diogelwch ar y ffyrdd, ar draws y Rhanbarth. Cefnogi hyn gyda darpariaeth briodol o seilwaith parcio beiciau a sgwteri a mannau aros i rieni i gynyddu'r tueddiad i gerdded a beicio. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Seilwaith Teithio Llesol Rhanbarthol | Darparu rhaglen o ymyriadau teithio llesol ar draws y rhanbarth, gan ddarparu llwybrau sydd wedi'u cynnwys yn y Map Rhwydwaith Teithio Llesol a sicrhau bod seilwaith Cerdded, Beicio ac Olwynion yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Canllawiau i'r Ddeddf Teithio Llesol. Ochr yn ochr â gwahanol gynlluniau Teithio Llesol, bydd hyn hefyd yn cynnwys darparu seilwaith hygyrch ac arwyddion canfod ffordd. | Teithio llesol / cerdded a beicio | Rhanbarthol |
| Pecyn Mynediad Twristiaeth | Mae twristiaeth yn werth £1.2bn y flwyddyn i'r economi ranbarthol ac mae dau Barc Cenedlaethol yn annog mynediad cynaliadwy. Canolfan hamdden arfaethedig yn Nyffryn Afan. Parcio a Theithio Dinbych-y-pysgod ar gyfer misoedd yr haf. Gwasanaeth bws haf Arfordir Penfro | Cynllun amlfodd | Rhanbarthol |
| Mynediad i Faes Glanio Rhanbarthol a Maes Awyr y Tu Allan i'r Rhanbarth | Mesur a pholisi i (i) caniatáu mynediad diogel i feysydd glanio cyfredol De-orllewin Cymru (ii) cefnogi mynediad i byrth rhyngwladol (meysydd awyr Caerdydd, Heathrow a Bryste ar gyfer pobl a nwyddau) | Cynlluniau amlfodd | Rhanbarthol |
| Rhaglen Newid Ymddygiad Rhanbarthol | Rhaglen o fesurau sydd â'r nod o annog defnydd cynaliadwy craidd o'r rhwydwaith trafnidiaeth. Bydd hyn yn cynnwys (er enghraifft) gweithio gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat i ddarparu cynlluniau teithio i'r gweithle, cynllunio teithio addysgol, mynediad at ofal iechyd, cynllunio teithio penodol i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac unrhyw fentrau newid ymddygiad amlfodd eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau cyfalaf a sicrhau gwerth mwyaf posibl buddsoddiad. | Cynlluniau amlfodd | Rhanbarthol |
| Pecyn hwyluso Porthladd Rhydd Rhanbarthol | Mesurau i hwyluso darparu'r Porthladd Rhydd. Yn debygol o gynnwys gwella ffyrdd lleol, gwasanaethau bws newydd / ychwanegol, cynlluniau teithio llesol a chynllun broceriaeth teithio | Cynlluniau amlfodd | Rhanbarthol |
| Rhaglen Hyfforddi Rhanbarthol | Datblygu a gweithredu rhaglen effeithiol Hyfforddiant Diogelwch ar y Ffyrdd sy'n cydnabod anghenion y defnyddwyr ffyrdd mwyaf agored i niwed, gan gynnwys yr hen a'r ifanc. Dylai hyn gynnwys cyflwyno addysg diogelwch ar y ffyrdd ar bob lefel gan gynnwys rhaglenni hyfforddi penodol i feicwyr modur. | Cynlluniau amlfodd | Rhanbarthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diogelwch ar y Ffyrdd | | | |
| Menter Cynllunio Trafnidiaeth/ Defnydd Tir Rhanbarthol | Fframwaith sy'n seiliedig ar bolisi ar gyfer integreiddio cynllunio defnydd tir gyda thrafnidiaeth. Cynlluniwyd hwn i gefnogi datblygiad y CDC a bydd yn cynnwys diffinio polisi a chynlluniau yng nghyd-destun y CDC | Cynlluniau amlfodd | Rhanb arthol |
| Pecynnau mynediad i'r dref | Mae mynediad i ganol trefi yn allweddol i weithgarwch economaidd lleol. Byrddau Iechyd yn mabwysiadu model gofal sylfaenol canol y dref | Cynlluniau amlfodd | Rhanb arthol |
| Gwelliannau Seilwaith Bysiau Rhanbarthol | Pecyn o welliannau ledled y rhanbarth i seilwaith aros am fysiau i ddarparu brand cyson ac adnabyddadwy a sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bawb, gan gynyddu tueddiad i deithio trwy foddau cynaliadwy. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Rhaglen Hyfforddi Gyrwyr Rhanbarthol | Datblygu rhaglen ranbarthol i recriwtio a hyfforddi gyrwyr i fynd i'r afael â diffygion presennol a diogelu'r diwydiant at y dyfodol. Byddai'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â gweithredwyr i nodi'r heriau penodol sy'n wynebu'r diwydiant a sicrhau bod rhaglenni hyfforddi wedi'u teilwra yn mynd i'r afael â'r heriau hynny. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Canolfannau Symudedd Rhanbarthol | Datblygu strategaeth Canolfan Symudedd sy'n nodi cyfleoedd i integreiddio gwefru cerbydau allyriadau isel iawn â moddau eraill, a darparu canolfannau symudedd lleol o fewn cymunedau, sy'n hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| System Gwybodaeth Amser Real Ranbarthol i Deithwyr | Datblygu a gweithredu strategaeth Gwybodaeth Amser Real i Deithwyr (RTPI) sy'n gyson â'r rhanbarth ehangach ac sy'n caniatáu cyflwyno RTPI ar draws y rhwydwaith bysiau. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Menter Ranbarthol | Yng ngoleuni masnachfreinio bysiau, datblygu model cynaliadwy ar gyfer darparu trafnidiaeth addysg ar draws y rhanbarth, gan gydnabod anghenion penodol | Gwelliannau trafnidiaeth | Rhanb arthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cludiant i’r Ysgol | cymunedau amrywiol y rhanbarth a mynd i'r afael â materion gan gynnwys trafnidiaeth addysg AAA. | gyhoeddus (cyflawni’r CTRh) | |
| Strategaeth Rheoli Asedau Rhanbarthol a Chyflawni | Datblygu a gweithredu dull Rhanbarthol o Reoli Asedau gan gynnwys cofnodi ac asesu'r rhwydwaith yn ogystal â darparu cynlluniau uwchraddio a gwrthsefyll yr hinsawdd. Bydd y cynllun yn ystyried anghenion unigryw'r pedwar awdurdod yn y rhanbarth a'r dulliau a ddefnyddir ar draws yr awdurdodau hynny. Bydd yn anelu at fanteisio ar synergeddau ac arbedion maint i ddwyn buddion i'r rhanbarth cyfan a chynnal y portffolio priffyrdd ac asedau strwythurol yn wyneb newid yn yr hinsawdd a heriau ehangach. Bydd hyn yn cydnabod rôl hanfodol y rhwydwaith priffyrdd ar draws y rhanbarth i lawer a'r rhan y mae'n ei chwarae mewn cysylltedd gwledig dwfn. | Cynlluniau cydnerthedd | Rhanbarthol |
| Dull Rhanbarthol o Barcio a Theithio | Safleoedd parcio a theithio ar gyfer canol trefi / dinasoedd a lleoliadau cyflogaeth allweddol / mannau twristiaeth allweddol. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni’r CTRh) | Rhanbarthol |
| Gwelliannau Dibynadwyedd Amser Teithiau Bws Rhanbarthol | Nodi mannau cyfyng ar draws coridorau rhanbarthol sy'n creu canlyniadau dibynadwyedd amser teithio gwael ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Darparu pecyn o fesurau i fynd i'r afael â'r mannau cyfyng hyn, i'w cyflawni ar y cyd ag awdurdodau cyfagos i sicrhau'r budd mwyaf posibl ar hyd y llwybrau cyfan. Gall y pecyn hwn gynnwys mesurau fel lonydd bysiau, ailgynllunio cyffyrdd a mesurau sy'n seiliedig ar flaenoriaeth. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni’r CTRh) | Rhanbarthol |
| Ffyrdd Osgoi Rhanbarthol | Lleoliadau tagfeydd lleol a lleoliadau pryderon diogelwch (nodi cynlluniau penodol e.e. ffordd osgoi Llandeilo a restrir isod). Amcangyfrifir 2 – 4 o gynlluniau unigol ar y mwyaf ledled y rhanbarth | Ffyrdd a pharcio (cyflawni’r CTRh) | Rhanbarthol |
| Strategaeth Ranbarthol Parcio Ceir | Pecyn o fesurau sydd â'r nod o asesu'r cyflenwad a'r galw presennol ar draws y rhanbarth, gan gydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu lleoliadau penodol o fewn y pedwar awdurdod. Bydd y cynllun yn ystyried opsiynau ar gyfer cymell trafnidiaeth gynaliadwy drwy ddarparu a phrisio parcio yn ogystal â chynnal twf economaidd ar draws y rhanbarth a deall ymhle mae angen lleoedd parcio i hwyluso teithiau amlfodd pellach. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni’r CTRh) | Rhanbarthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Strategaeth Ranbarthol Cerbydau Nwyddau Trwm a'i Chyflawni | Mesurau i sicrhau bod symudiadau cerbydau nwyddau trwm yn 'ychwanegu gwerth' at y rhanbarth ac i leihau eu heffeithiau cymunedol. Gallai mesurau gynnwys 1. cyfleusterau newydd ar ochr y ffordd 2. map llwybro a hyrwyddo 3. Gwelliant lleol dethol ar lwybrau addas i gerbydau nwyddau trwm i hwyluso eu symudiad | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Adolygiad Rhanbarthol o derfyn cyflymder 20mya | Adolygiad o'r terfyn cyflymder 20mya cyffredinol yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd, gan gydnabod cymeriad unigryw pob un o'r pedwar awdurdod yn y rhanbarth a'r heriau lleol a wynebir. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Rhaglen Rheoli Capasiti Ffyrdd Rhanbarthol | Rhaglen o fesurau rheoli ffyrdd i leihau capasiti'r ffyrdd ar gyfer ceir preifat, gyda lleoliadau i'w cadarnhau, neu i effeithio ar gydbwysedd y gost rhwng trafnidiaeth breifat a chyhoeddus o dan amgylchiadau priodol | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Cynllun Rhanbarthol Diogelwch ar y Ffyrdd yn dilyn diweddaru Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Cymru | Datblygu cynllun Diogelwch Ffyrdd Rhanbarthol i roi cyd-destun lleol i Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Cymru. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Rhaglen Arwyddion Traffig Rhanbarthol | Rhaglen i wella / darparu rheolaeth glyfar a rheoli traffig trefol mewn ardaloedd trefol | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |
| Enillion Net Bioamrywiaeth ac Ymylon | Parhau i ehangu bioamrywiaeth tir sy'n eiddo i'r priffyrdd, creu a chynnal cynefinoedd ar ymylon y priffyrdd ac ochr yn ochr â chyfleusterau teithio llesol. | Ffyrdd a pharcio (cyflawni'r CTRh) | Rhanb arthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Priffyrdd Rhanbarthol | | | |
| Gwelliannau coridor trawsffiniol | Cwmpasu llwybrau i Geredigion, Powys, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf nad ydynt yn gefnffyrdd | Cynlluniau Strategol | Rhanbarthol |
| Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw, Trafnidiaeth Gymunedol, Clybiau Ceir a Symudedd Gwledig Rhanbarthol | Rhaglen o fesurau i asesu'r angen am system drafnidiaeth a all ddarparu ar gyfer teithiau cynaliadwy o ddrws i ddrws, ar draws y rhanbarth, ei datblygu a'i chyflawni. Bydd hyn yn crisialu ardaloedd trefol a gwledig lle mae angen penodol am fwy o gysylltedd trafnidiaeth na ellir ei fodloni gan y rhwydwaith bysiau wedi'i amserlennu. Bydd y cynllun yn gweithio ar y cyd â'r trydydd sector, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â phartneriaid yn y sector cyhoeddus i ddarparu ateb addas i'r diben ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig ar draws y rhanbarth o ran trafnidiaeth. | Tacsis a thrafnidiaeth gymunedol | Rhanbarthol |
| Datgarboneiddio'r Fflyd Fysiau Ranbarthol a seilwaith cysylltiedig | Pecyn o fesurau sy'n cyd-fynd â rhaglen datgarboneiddio bysiau bresennol TrC gyda'r nod o ddileu cerbydau hŷn a llai effeithlon o blaid dewisiadau amgen carbon is. Gall hyn gynnwys prynu cerbydau a/neu ddatblygu seilwaith ategol. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Rhanbarthol |
| Datgarboneiddio Fflyd y Sector Cyhoeddus Rhanbarthol | Darparu dull cyson o ddatgarboneiddio fflyd y sector cyhoeddus drwy gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus. Bydd y cynllun hwn yn darparu rhwydwaith gwefru cerbydau allyriadau isel iawn sy'n gadarn ac addas i'r diben ar draws y rhanbarth trwy awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus, gan roi seilwaith gwefru mwy cadarn. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys prynu cerbydau allyriadau isel iawn i hwyluso'r broses o drosglwyddo i fflyd wedi'i datgarboneiddio ac uwchsgilio staff a chyfleusterau'n berthnasol i ddarparu ar gyfer cerbydau mwy modern. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Rhanbarthol |
| Rhaglen Ranbarthol Newid | Datblygu rhaglen newid ymddygiad yn seiliedig ar ddull COM-B ac wrth wneud hynny hysbysu a grymuso'r cyhoedd i newid i gerbydau allyriadau isel iawn lle mae rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig yn bodoli | Cerbydau allyriadau isel iawn | Rhanbarthol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymddygiad at Gerbydau Allyriadau Isel Iawn | | | |
| Rhaglen Ranbarthol Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (Cerbydau Preifat) | Darparu gwell rhwydwaith gwefru cerbydau allyriadau isel iawn ar draws y rhanbarth gan gynnwys (er enghraifft) astudiaethau penodol a gweithredu Gwefru ar y Stryd, Hybiau Cyflym, Gwefru yn y Gweithle, Gwefru Cyrchfan, Gwefru Gorsafoedd Trenau, Gwefru mewn Ysgolion ac yn y Gymuned. Bydd y cynllun hwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatgarboneiddio cyflenwadau pŵer ar gyfer y rhwydwaith gwefru. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Rhanbarthol |
| Strategaeth Ranbarthol Tacsis Dim Allyriadau | Datblygu strategaeth ranbarthol i annog cyflwyno cerbydau dim allyriadau i fflydoedd tacsi, gan gydweithio â'r sector preifat a deall y defnydd o dacsis o fewn gweithrediadau awdurdodau lleol. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Rhanbarthol |

## Cynlluniau Trydydd Parti

Mae'r cynlluniau hyn yn hanfodol i gyflawni Amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond ni ellir eu datblygu na'u cyflawni'n rhanbarthol. Enwir y sefydliad(au) a fyddai'n gyfrifol am gyllid a chyflawni.

| Enw'r Ymyriad | Disgrifiad gan gynnwys lleoliad(au) | Thema | Corff Cyflenwi |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio Cyfleusterau ac Integreiddio Gorsafoedd Trenau | Pecyn o welliannau i orsafoedd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd i wella profiad teithwyr, hygyrchedd ac integreiddio â moddau eraill, yn ogystal ag uwchraddio signalau, traciau a chroesfannau rheilffordd i wella dibynadwyedd gwasanaethau a diogelu'r rhwydwaith at y dyfodol. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni gan drydydd parti) | Network Rail |
| Trydaneiddio'r Rhwydwaith Rheilffyrdd i'r Gorllewin o Gaerdydd | Trydaneiddio'r Rhwydwaith Rheilffyrdd i'r Gorllewin o Gaerdydd | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni gan drydydd parti) | Network Rail |
| Gallu'r Seilwaith Rheilffyrdd ym Mae Caerfyrddin i Wrthsefyll yr Hinsawdd | Mae Prif Linell y De-orllewin rhwng Glanyfferi yn y gorllewin a Llanelli yn y dwyrain yn rhedeg wrth ymyl Bae Caerfyrddin, ac mae mewn perygl o ddifrod yn sgil llifogydd tymhorol arfordirol. Mae gwasanaethau ar hyd Prif Linell y De-orllewin yn aml yn cael eu canslo neu eu disodli gan fws oherwydd tywydd garw a llifogydd, gan effeithio'n sylweddol ar y rhanbarth. Byddai'r cynllun hwn yn lobïo TrC i ymchwilio a darparu atebion i ddiogelu'r trac at y dyfodol yn y man hwn, gan ddarparu mwy o ddibynadwyedd gwasanaeth a chysylltedd ymlaen i'r gorllewin i Sir Benfro a'r Dwyrain i Abertawe. | Cynlluniau cydnerthedd | Network Rail (a TrC) |
| Gwasanaeth cyflym awr rhwng Caerdydd a Chaerfyrddin | Cyflwyno gwasanaeth cyflym awr rhwng Caerdydd a Chaerfyrddin ar hyd Llinell Ardal Abertawe, drwy Felindre. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Network Rail / TrC |
| Gorllewin Cymru i Fryste Temple Meads | Gwasanaethau amlach a gwell gwasanaeth uniongyrchol rhwng Gorllewin Cymru a Bryste Temple Meads. | Cynlluniau strategol | Network Rail / TrC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (cyflenwi gan drydydd parti) | |
| Abertawe i Gaerfyrddin a Gorllewin Cymru | Gwasanaeth amlach rhwng Abertawe/Caerfyrddin a Gorllewin Cymru - o leiaf un trên yr awr rhwng Abertawe a Doc Penfro, un trên yr awr rhwng Caerfyrddin/Caerdydd ac Aberdaugleddau a dau drên yr awr rhwng Caerfyrddin ac Abergwaun. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Network Rail / TrC |
| Gwelliannau Amserlennu, Amlder a Stoc Rheilffordd Calon Cymru | Lobïo TrC a NR am welliannau i amserlennu, stoc ac amlder ar Reilffordd Calon Cymru i ddarparu dewis arall dichonadwy i'r car preifat. Byddai'r cynllun hwn yn integreiddio â gwelliannau arfaethedig i gyfleusterau cyfnewid yn Rhydaman, ailagor arfaethedig Llinell Fwynau Dyffryn Aman a darparu Llwybr Dyffryn Tywi. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Network Rail / TrC |
| Uwchraddio Cyfleusterau ac Integreiddio Gorsafoedd | Pecyn o welliannau i orsafoedd ar draws Prif Linell y De-orllewin a Rheilffordd Calon Cymru i wella profiad teithwyr, hygyrchedd ac integreiddio â moddau eraill, yn ogystal ag uwchraddio signalau, traciau a chroesfannau rheilffordd i wella dibynadwyedd gwasanaethau a diogelu'r rhwydwaith at y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwelliannau yng ngorsaf drenau Hendy-gwyn ar Daf yn benodol. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Network Rail / TrC |
| Gwelliannau amserlennu, amlder a stoc trenau. | Lobïo TrC a NR am welliannau i amserlennu, stoc ac amlder ar y rhwydwaith rheilffyrdd i ddarparu dewis arall dichonadwy i'r car preifat. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni gan drydydd parti) | Network Rail / TrC / GWR / Gweithredwyr Trenau Eraill |
| Gwelliannau Cyffordd 43 yr M4 | Mesurau lleihau tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd strategol lle mae tagfeydd yn rhwystro'n ôl i ffyrdd lleol | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |
| Ffordd Osgoi Dwyrain Llandeilo | Cefnogi LIC i hwyluso'r gwaith o gyflawni ymrwymiad hirsefydlog i ddarparu Ffordd Osgoi Dwyrain Llandeilo, a thrwy hynny wella dibynadwyedd amser teithio ar Gefnffordd Abertawe i Fanceinion, gwella diogelwch ansawdd aer ac amodau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn Nhref Llandeilo. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwm Abergwaun (A487) | Ffordd newydd i gael gwared ar fan cyfyng ar y gefnffordd | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |
| Gwelliannau i Rwydwaith Coridor y Dwyrain i'r Gorllewin | Cyfres o welliannau ar yr A40, yr A477, A48 i wella tagfeydd a llif traffig; astudiaethau dichonoldeb i edrych ar waith 2 + 1 ar y Cefnffyrdd | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |
| Rhaglen uwchraddio cefnffyrdd | Cyfres o gynlluniau gwella asedau ar y rhwydwaith cefnffyrdd – i gynnwys adnewyddu Pont Llansawel a gwella asedau strwythurol ffyrdd cerbydau ardal Abertawe | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |
| Coridor Teithio Sir Benfro | Coridor teithio newydd sy'n cysylltu'r A4075/A477 â'r B4319 o amgylch Penfro; gwaith Cam 1 a 2 WelTAG. Cefnogi datblygiad y Porthladd Rhydd Celtaidd | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |
| Gwelliannau Rhwydwaith Coridor y Dwyrain i'r Gorllewin | Cyfres o welliannau ar yr A40, yr A477, A48 i wella tagfeydd a llif traffig; astudiaethau dichonoldeb i edrych ar waith 2 + 1 ar y Cefnffyrdd | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru |
| Rhanbarthol (cenedlaethol ?) Tocynnau Integredig | Lobïo TrC am ddarparu tocynnau talu wrth ddefnyddio ac integredig ar draws moddau trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth ac ar draws rhanbarthau yng Nghymru. Byddai symleiddio mynediad i gludiant teithwyr yn gwella atyniad teithio ar y rheilffyrdd a defnyddio nifer o foddau i gwblhau teithiau o ddrws i ddrws. | Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (cyflawni gan drydydd parti) | TrC |
| Caerfyrddin i Aberystwyth | Lobïo TrC ac NR ar gyfer ailagor Llinell Caerfyrddin i Aberystwyth fel llinell i deithwyr sy'n darparu cysylltedd rhwng y Gogledd a'r De ac yn cwtogi'n sylweddol ar y daith reilffordd gyflymaf bresennol o ryw 6 awr. Byddai'r llinell yn darparu cysylltedd rhyngranbarthol trwy gysylltu â'r Canolbarth (Ceredigion). | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Llywodraeth Cymru / Network Rail / TrC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llinell Fwynau Dyffryn Aman | Lobïo TrC a NR i ailagor Llinell Fwynau Dyffryn Aman fel llinell i deithwyr sy'n gwasanaethu Dyffryn Aman ac yn darparu cysylltedd trawsffiniol ag Abertawe gan greu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ac addysg. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Llywodraeth Cymru / Network Rail / TrC |
| Ailagor Gorsaf Drenau Sanclêr | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu pecyn o elfennau integreiddio gan gynnwys argymhellion gwasanaethau bysiau, gwelliannau i'r seilwaith a mesurau teithio llesol, yn ogystal â chyfnewidfa amlfodd integredig i gefnogi ailagor Gorsaf Drenau Sanclêr, i gam 3 WelTAG. Rydym yn agored i gefnogi TrC a Network Rail i ailagor yr orsaf a darparu'r elfennau ategol. Byddwn yn parhau i lobïo am ailagor yr orsaf fel blaenoriaeth leol a rhanbarthol. Bydd mwy o angen am yr orsaf hon os bydd Sanclêr yn cael ei dewis fel safle Ysbyty Cyffredinol newydd Gorllewin Cymru. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Llywodraeth Cymru / Network Rail / TrC |
| Gwelliannau Cyfnewidfa Amlfodd Gorllewin Cymru a Gwelliannau / Cysylltiadau Rheilffyrdd Ardal Abertawe | Darparu Gorsaf Parcffordd Gorllewin Cymru yn Felindre gyda chyfleusterau amlfodd cysylltiedig i hwyluso integreiddio di-dor a hyrwyddo teithiau cynaliadwy o ddrws i ddrws nad ydynt yn dibynnu ar y car preifat. Gan gynnwys gwelliannau ar hyd Llinell Ardal Abertawe a chysylltiadau â hi. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Llywodraeth Cymru / Network Rail / TrC / Gweithredwyr trenau eraill |
| Diwygio Rheoleiddio Bysiau | Ailgynllunio a rhanbartholi'r rhwydwaith bysiau a gynigiwyd gan Trafnidiaeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Erbyn mis Ebrill 2027, rhagwelir y bydd masnachfreinio'r rhwydwaith bysiau wedi'i gwblhau, gan greu cyfleoedd ar gyfer lefelau uwch o wasanaeth ac amlder. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i Awdurdodau Lleol lobïo TrC am welliannau i wasanaethau lleol i wasanaethu cymunedau lleol yn well a chynyddu tueddiad i deithio ar fws. | Cynlluniau strategol (cyflenwi gan drydydd parti) | Llywodraeth Cymru / TrC |
| Bws Hydrogen Rhanbarthol | Datblygu Bysiau Hydrogen a seilwaith Gwefru cysylltiedig ar draws y rhanbarth i hwyluso darparu treial bws hydrogen gyda HTPPO a SWT yn ogystal â chyflwyno'r bysiau hydrogen yn ehangach efallai. | Cerbydau allyriadau isel iawn | Llywodraeth Cymru / TrC |